# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2016.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Elliott King | Adran Etholiadol: | Y Cocyd |

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Cynhaliais gymorthfeydd yn y ward, ar y cyd â'm cydweithwyr ward, yn Llyfrgell Fforestfach a Chanolfan Gymunedol Waunarlwydd. Roedd y rhain yn llwyddiannus gyda phreswylwyr yn gallu cael mynediad i gyngor, ond roedd presenoldeb yn y gymuned hefyd yn bwysig. Aeth llawer o bobl i'r cymorthfeydd ac rwyf wedi cwrdd a siarad â llawer o grwpiau o bobl a chymerais ran hefyd mewn cymorthfeydd stryd gyda chydweithwyr ward.

Cymerais ran mewn cyfarfodydd Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT), a chysylltu â'r heddlu ar nifer o faterion. Rwyf wedi bod yn rhan o drefnu cyfarfodydd â phreswylwyr i drafod materion, gan gynnwys trefnu cyfarfod yn y Cocyd yn ddiweddar i drafod materion cynllunio penodol.

Trwy gydol y flwyddyn, rwyf hefyd wedi treulio amser yn ateb ymholiadau gan nifer o unigolion ac ymdrin â hwy, ar draws amrywiaeth o faterion, a chwrdd â phreswylwyr i'w cynorthwyo.

Ar ben hynny, rwyf wedi bod yn llywodraethwr yn Ysgol Gymunedol y Gors.

Fel grŵp o gynghorwyr yn y ward, rydym wedi gallu defnyddio'n cyllideb gymunedol i ymgymryd â nifer o brosiectau yn y ward, megis arwyddion croeso a blodau gwyllt.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Isod dangosir % presenoldeb seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Gwasanaethau Corfforaethol | 0 | / | 1 | 0 | % |
| Y Cyngor | 13 | / | 18 | 72 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Atal a Diwygio Gofal | 4 | / | 7 | 57 | % |
| Pwyllgor Archifau Gorllewin Morgannwg | 3 | / | 4 | 75 | % |
| **CYFFREDINOL** | **20** | **/** | **30** | 67 | **%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Rwyf wedi bod y Cynghorydd Hyrwyddwr dros Rywedd, Tueddfryd Rhywiol ac Ailbennu Rhywedd. Roedd hyn yn fy ngalluogi i gydgadeirio Fforwm LGBT+ Bae Abertawe â Heddlu De Cymru i ddod â llawer o sefydliadau ynghyd i gydweithredu a rhwydweithio yn y gymuned. Roedd yn bleser mawr gennyf gefnogi Digwyddiad Sparkle Abertawe, a oedd yn llwyddiannus iawn.

Yn ddiweddar, cefais fy mhenodi'n un o'r cynrychiolwyr ar Gyngor Iechyd Cymunedol Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg o Ddinas a Sir Abertawe. Rwy'n edrych ymlaen at weithio yn y grŵp hwn i helpu i wella a monitro gwasanaethau iechyd ar draws y bwrdd iechyd.

Hefyd, rwyf wedi bod yn un o gynrychiolwyr y cyngor ar y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Roeddwn yn rhan o'r ymchwiliad craffu i Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, gan allu cyfrannu fel maes diddordeb a phrofiad blaenorol. Mae hyn wedi cynnwys cyfarfodydd i sefydlu'r ymchwiliad, ond cyfarfod hefyd â rhanddeiliaid a grwpiau amrywiol i'w cynnwys.

Rwyf wedi bod yn cefnogi grŵp Cyfeillion Parc Ravenhill, gan helpu gyda'i ddigwyddiadau codi arian.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Euthum i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

24/07/2015 - Cyflwyniad i Graffu
03/07/2015 - Swyddogaethau'r Cyngor/Cabinet (Gweithredol), Cyfansoddiad y Cyngor (Cyffredinol)
03/07/2015 - Rheolau Gweithdrefnau'r Cyngor, Moesgarwch ac Ymddygiad, Gwneud Penderfyniadau Da
03/07/2015 - Tueddfryd, Penderfynu Ymlaen Llaw a Rheolau Cyfiawnder Naturiol
12/06/2015 - Cyflwyniad i Gôd Ymddygiad a Safonau
12/06/2015 - Buddiannau, Rhoddion a Lletygarwch, gan gynnwys arweiniad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Bu'n bleser mawr gennyf fod yn rhan o'r pwyllgor yng Nghanolfan Gymunedol y Gendros, wedi ymgymryd â rôl rheolwr mangre'n ddiweddar i gymryd cyfrifoldeb am iechyd a diogelwch a diogelwch tân. Mae wedi bod yn bwysig cefnogi'r ased cymunedol pwysig hwn yn y ward.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

## Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 23.05.2016 |